

BETHAN GWIANAS



Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?
Yn Nolgellau

Ble aethoch chi i'r ysgol?
Ysgol gynradd y Brithdir (wedi cau erbyn hyn) ac Ysgol y Gader Dolgellau

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?
HOFFI: chwaraeon, Ffrangeg, sgwennu straeon fel gwaith cartref, a fy ffrindiau. CASAU: maths. Byddai 'mental tests' yn yr ysgol gynradd yn gwneud i mi grio.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?
Gyrrwr lori mewn gwledydd tramor neu newyddiadurwr.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?
Brownie Tales, Enid Blyton, am 3 corrach bach drwg a gwrachod a hud a lledrith.

Beth yw eich diddordebau?
Beicio, llyfrau, ffilmiau. Caiaicio pan ga i gyfle.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?
Mynd ar y beic. Cael ffrindiau a theulu draw am fwyd neu i chwarae ping pong ar fwrdd y gegin. Rhywun yn canmol fy llyfrau i!

Beth sy'n eich gwylltio chi?
Cael pyncjar pan dwi ar y beic. Hiliaeth. Creulondeb. Cael bai ar gam.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?
Yr eiliad ddysgais i ddarlhen ar fy mhen fy hun. Ro'n i'n caru straeon gymaint, ro'n i isio sgwennu rhai fy hun, ond do'n i ddim yn meddwl y byddwn i'n ddigon da.
O ble rydych chi'n cael eich syniadau?
Mae'n amrywio: weithiau o'r pethau mae pobl yn eu dweud, weithiau o hanes a hanes Cymru, neu o fy mhentyndod fy hun, weithiau o nunlle ganol nos!


Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?
Oes: llyffantod, cŵn, merched dewr, yr awyr agored, ac yn anffodus i mi - hanes, sy'n golygu llwyth o waith ymchwil!

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Jest tria bod yn onest, paid â thrio dangos dy hun efo ryw ffrils diangen. Mae'r ffrils yn gallu cymryd drosodd a thagu'r stori. Ond mae ambell ffrilen yn hyfryd. Yn y bôn, mae angen gwybod pa ffrils i'w cadw!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?

GORAU: y mwynhad o'r sgwennu ei hun, a'r mwynhad o ddarllen be rwy't ti wedi'i sgwennu a meddwl: 'W! Dydi hwn ddim yn ddrwg...' A phan fydd darllenwyr yn canmol wedyn. GWAETHAF: gorfod sgwennu pan does gen ti ddim awydd/ amser. A darllen adolygiad gwael - do, dwi wedi cael un neu ddau!



CWESTIYNAU CYFLYM

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Brownie Tales

Hoff gymeriad o lyfr?

Tinkerbell

Hoff le?

Paris

Hoff fwyd?

Mango

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

The Shawshank Redemption

Hoff air?

Twmffat

Superpower o ddewis?

Hedfan

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Cŵn

Swydd tase chi dim yn awdur?

Swydd ddelfrydol?

Hyfforddwr Scuba

Top tip i ddarpar awduron.

Darllena!